# CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 19 Mawrth 2013 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Julian Thompson-Hill, Eryl Williams, Bobby Feeley, Hugh Irving, Huw Jones, Barbara Smith a David Smith

**Arsyllwyr:** Cynghorwyr Richard Davies, Gwyneth Kensler ac Arwel Roberts

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Cwsmeriaid (HW), Moderneiddio a Lles (SE), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (RGW), Pennaeth Cyllid ac Asedau (PM), Swyddog Comisiynu (RA), a Gweinyddwr Pwyllgor (KEJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Dim.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Nododd y Cynghorydd David Smith bod ganddo gysylltiad personol a niweidiol yn Eitem rhif 6 ar y rhaglen, sef y Gwasanaeth Rhanbarthol Arfaethedig Cynllunio Rhag Argyfwng.

## 3 MATERION BRYS

Dim.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod Cabinet a gynhaliwyd ar 19 Chwefror 2013.

**Cywirdeb –** Rhoddodd y Cynghorydd Richard Davies wybod y cyfeiriwyd ato yn anghywir fel 'J.R. Davies' yn lle 'R.J. Davies' yn y cofnodion.

**Materion yn Codi –** Tudalen 15 – Eitem rhif 9 Digwyddiad Beicio Etape Cymru 2013, penderfyniad (c) – cytunodd y Cynghorydd Huw Jones i wirio bod y cais i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau lleol yn rheolaidd mewn perthynas â phryderon yn cael ei ddatblygu.

***PENDERFYNWYD**, ar ôl newid yr uchod, y dylid cymeradwyo bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Chwefror 2013 yn gofnod cywir, a'u llofnodi gan yr Arweinydd.*

## 5 CYDWEITHREDU RHANBARTHOL GOFALWYR IFANC

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i wneud gwaith i ddatblygu gwaith rhanbarthol/isranbarthol ar y cyd i ddarparu Gwasanaethau Gofalwyr Ifanc ledled Awdurdodau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Rhoddwyd gwybod i'r Cabinet am y cefndir i'r cynigion gan gynnwys cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â Gofalwyr Ifanc a chanfyddiadau dadansoddiad manwl y cytundebau a darparwyr presennol. Yn seiliedig ar ddefnydd a darpariaeth bresennol gellir gwneud arbedion sylweddol a gwelliannau gwasanaeth os bydd cytundeb rhanbarthol gan chwe awdurdod Gogledd Cymru. Yn amodol ar gael cymeradwyaeth wleidyddol, mae ymrwymiad wedi'i gadarnhau gan Gonwy, Sir Ddinbych a Wrecsam. Os bydd awdurdodau eraill yn gwrthod bod yn rhan o gytundeb rhanbarthol, cynigir ymrwymo i gytundeb isranbarthol fydd yn parhau i ddarparu arbedion cost a manteision.

Gofynnodd yr Arweinydd am eglurhad ynglŷn â'r goblygiadau cost a rhoddodd swyddogion wybod y bydd angen ymrwymiad ariannol o tua £300k - £350k ar gyfer cytundeb rhanbarthol, a bydd yn cael ei ariannu o'r cyllidebau gwasanaeth presennol. Credwyd y gellir gwneud arbedion hefyd os bydd y gwaith cydweithio yn parhau yn isranbarthol ond i raddau llai. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd David Smith, cadarnhawyd y bydd cwmpas i unrhyw awdurdod sy'n gwrthod bod yn rhan o'r cytundeb rhanbarthol ar hyn o bryd ymuno yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** *y dylai'r Cabinet gymeradwyo'r gwaith i'w wneud i ddatblygu gwaith rhanbarthol/isranbarthol i ddarparu Gwasanaethau Gofalwyr Ifanc yn Awdurdodau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.*

## 6 GWASANAETH RHANBARTHOL ARFAETHEDIG CYNLLUNIO RHAG ARGYFWNG

[Nododd y Cynghorydd David Smith bod ganddo gysylltiad personol a niweidiol yn Eitem rhif 6 ar y rhaglen, sef y Gwasanaeth Rhanbarthol Arfaethedig Cynllunio Rhag Argyfwng a gadawodd y cyfarfod tra roedd yr eitem yn cael ei thrafod.]

Yn absenoldeb y Cynghorydd David Smith cyflwynodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans, yr adroddiad yn argymell mabwysiadu'r cynllun busnes terfynol i sefydlu Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio Rhag Argyfwng a dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Arweiniol i gymeradwyo trefniadau trosglwyddo. Mae crynodeb o'r trefniadau presennol yn ogystal â'r achos busnes terfynol wedi'i atodi i'r adroddiad.

Comisiynodd Prif Weithredwyr chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru ddatblygiad achos busnes am wasanaeth sengl ac ers hynny mae wedi'i gynnwys yn y Compact Llywodraeth Leol. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at fanteision sefydlu Gwasanaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn seiliedig ar strwythur isranbarthol gyda phresenoldeb swyddog ym mhob awdurdod i sicrhau arbenigedd a gwybodaeth leol a pharhad gwasanaethau lleol. Er bod arbedion cost yn fychan,

bydd cydweithio yn darparu gwasanaeth mwy effeithlon, effeithiol a gwydn, a gofynnir i'r chwe awdurdod gefnogi'r argymhelliad i ymuno. Cynigiwyd y bydd y gwasanaeth newydd yn dod yn weithredol ym mis Hydref 2013.

Yn y drafodaeth a ddilynodd, gofynnodd yr Arweinydd am sicrwydd y bydd y risgiau a nodwyd yn yr achos busnes yn cael eu rheoli yn dda ac na fydd gallu'r gwasanaeth i ymateb i argyfwng yn cael ei effeithio ormod yn ystod y trosglwyddo. Oherwydd amrywiaeth yr ardal ddaearyddol a'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd penodol, fel diwydiant trwm a llifogydd (arfordirol a mewndirol), gofynnodd y Cynghorydd Eryl Williams am sicrwydd ynglŷn â'r arbenigedd i ymdrin â gwahanol anghenion mewn dwy ganolfan wahanol yn y strwythur newydd. Nododd hefyd bod addasrwydd systemau TG yn rhan annatod o brosiectau ar y cyd. Cyfeiriodd y Cynghorydd Huw Jones at y gwahanol bolisïau iaith Gymraeg mewn awdurdodau lleol a'r angen am gysondeb gyda pholisi Sir Ddinbych o roi'r Gymraeg cyn y Saesneg.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol fel a ganlyn –

- rhoddodd wybod am liniaru'r risgiau a nodwyd yn yr achos busnes gan roi gwybod bod y gwasanaeth eisoes wedi gweithio yn agos gydag awdurdodau lleol eraill yn y rhanbarth ac y bydd y cam gweithredu, sy'n gymharol fyr, yn cael ei oruchwylio gan grŵp swyddogion. Hefyd, y swyddogaethau craidd yw'r gwasanaethau ystafell gefn i'r ymateb brys ac felly ni fydd y gallu i ymateb i ddigwyddiad yn cael ei effeithio yn ystod y trosglwyddiad
- roedd y cynnig am wasanaeth rhanbarthol sengl, ac mae'r canolfannau Gorllewinol a Dwyreiniol wedi'u canfod ar gyfer lleoli staff yn rhwydd yn y strwythur newydd; bydd strategaethau a chynlluniau ar y cyd yn y rhanbarth i ymdrin â'r amrywiaeth yn y chwe ardal. Hefyd, bydd swyddog penodedig yn Sir Ddinbych i deilwra ymateb brys yr awdurdod, a
- cydnabuwyd pwysigrwydd systemau TG gan roi gwybod bod Sir Ddinbych a Sir y Fflint eisoes yn rhannu system TG.

Hefyd, trafododd y Cabinet faterion llywodraethu ac er y nodwyd bod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau wedi archwilio'r cynigion yn fanwl nodwyd angen i archwilio yn ystod y cyfnod trosglwyddo ac ar ôl gweithredu. Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y diffyg awydd gwleidyddol i sefydlu pwyllgorau archwilio rhanbarthol a rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd wybod ynglŷn â sefydlu pwyllgorau archwilio ar y cyd fel y cyfeiriwyd ato yn y Mesur Llywodraeth Leol. Nodwyd bod briff ar y Mesur wedi'i drefnu ar gyfer y cyfarfod Briffio Cyngor nesaf.

***PENDERFYNWYD*** *y dylai'r Cabinet –*

*(a)* *fabwysiadu'r cynllun busnes terfynol i sefydlu Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio Rhag Argyfwng ar y sail a nodwyd ym mharagraff 4.12 yr adroddiad;*

(b) *dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Arweiniol i gymeradwyo'r manylion trosglwyddo manwl i'r gwasanaeth newydd a chynnal pob tasg angenrheidiol i sefydlu'r gwasanaeth newydd, ac*

(c) *argymell bod y gwasanaeth rhanbarthol yn amodol ar archwiliad gan y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau yn ystod y cam trosglwyddo ac ar ôl ei weithredu yn llawn.*

**7 ADRODDIAD CYLLID**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a chynnydd yn erbyn y strategaeth gyllidebol y cytunwyd arno. Rhoddodd grynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn–

- rhagwelir tanwariant o £1.1m yn y cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol gyda'r rhagamcan ar gyfer ysgolion yn symudiad cadarnhaol ar falansau o £306k ar gyllidebau wedi'u dirprwyo a £161k ar gyllidebau heb eu dirprwyo
- mae £3.418m (99.3%) o'r arbedion y cytunwyd arnynt wedi'u cyflawni neu eu disodli gyda £25k (0.7%) sy'n cael ei ohirio tan y flwyddyn nesaf
- tynnwyd sylw at amrywiadau allweddol o gyllidebau neu dargedau arbedion a manylion cyllidebau gwasanaeth unigol, a
- darparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn gyffredinol ar y Cynllun Cyfalaf a'r Cyfrif Refeniw Tai.

Manteisiodd y Cabinet ar y cyfle i holi cwestiynau i'r Cynghorydd Thompson-Hill a'r swyddogion a ymatebodd fel a ganlyn –

- esboniodd y costau ymateb uniongyrchol oedd yn gysylltiedig â'r llifogydd ym mis Tachwedd, yn ogystal â'r costau parhaus ac yn y dyfodol o ran cefnogaeth gwasanaethau cymdeithasol, tai ac eithriadau treth y cyngor
- ymhelaethwyd ar y tanwariant yn y Gwasanaethau Priffyrdd ac Isadeiledd a'r cynlluniau i ariannu swydd dros dro i hwyluso trosglwyddo'r swyddogaeth rheoli harbwr a chyfleusterau asedau arfordirol i'r Gwasanaethau Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden
- rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am y bleidlais effeithlonrwydd gweithlu gan roi gwybod bod aelodau undebau wedi gwrthod cynigion ond bod y presenoldeb wedi bod yn isel iawn. Bydd yr undebau yn rhoi gwybod beth yw eu sefyllfa yn dilyn trafodaethau gyda'u haelodau ar ganlyniad y bleidlais, a
- Rhoddodd y Cynghorydd David Smith wybod am gynnydd gyda'r Adolygiad Fflyd yn y Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylchedd gan roi gwybod efallai na fydd angen yr arian a neilltuwyd.

Llongyfarchodd yr Arweinydd y Penaethiaid Gwasanaeth am reoli cyllideb heriol yn effeithiol, gan arwain at danwariant mewn gwasanaethau. Rhoddodd y Cynghorydd Eryl Williams wybod y bydd y Swyddogion Gwella Ysgolion, Tony Jones, Ann Jones ac Eirwen Vogler yn gadael yr awdurdod ddiwedd mis Mawrth a mynegodd ei werthfawrogiad iddynt am eu gwaith caled a'u hymrwymiad i'r Gwasanaeth Addysg.

***PENDERFYNWYD** y dylid nodi'r gyllideb a'r targedau arbedion ar gyfer y flwyddyn a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni.*

## 8 ARGYMHELLION GAN Y GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer prosiectau a nodwyd ar gyfer eu cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2013/14 fel yr argymhellir gan y Grŵp Buddsoddi Strategol (SIG) ac y manylwyd arnynt yn Atodiad 1 yr adroddiad. Arweiniodd y Cynghorydd Thompson-Hill yr aelodau trwy'r adroddiad ac ymhelaethu ar yr arian sydd ar gael i ddyrannu gwaith cyfalaf i brosiectau unigol a dyraniadau bloc ar gyfer rhaglenni gwaith parhaus yn ogystal â meini prawf sgorio a ddefnyddiwyd i werthuso prosiectau. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am waith y SIG wrth adolygu ceisiadau am ddyraniadau ynghyd â materion a gododd yn ystod y broses geisiadau. Yn olaf, rhoddwyd crynodeb o argymhellion y SIG yn ogystal â manylion pellach dyraniadau bwriedig yr arian cyfalaf.

Nododd y Cynghorydd Huw Jones y cynnig i leihau'r gronfa wrth gefn yn y Cynllun Cyfalaf o £1m i £0.5m. Cyfeiriodd at gyfarfod diwethaf Ymddiriedolwyr Pafiliwn Corwen a holodd am y ffynhonnell ariannol os bydd angen i'r Cyngor dalu am y tir mewn Ymddiriedolaeth. Rhoddodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau wybod y bydd y mater yn cael ei asesu pan fydd canlyniad pendant a bod cronfeydd wrth gefn yn y cynllun cyfalaf a'r balansau cyffredinol i ymdrin ag amgylchiadau o'r fath.

Gofynnodd y Cynghorydd Eryl Williams am sicrwydd ynglŷn â gwaith y SIG a chysondeb aelodaeth. Rhoddodd y Cynghorydd Thompson-Hill wybod nad oes gan y SIG unrhyw bwerau ffurfiol ar gyfer gwneud penderfyniadau a bod angen i'w hargymhellion fynd trwy'r broses aelodau arferol ar gyfer cael penderfyniad ffurfiol. Cadarnhaodd bod aelodau yn mynd i'r cyfarfod yn rheolaidd. Ychwanegodd yr Arweinydd bod y SIG yn edrych mewn manylder ar brosiectau cyfalaf a'i fod yn hyderus bod eu hargymhellion yn gadarn.

***PENDERFYNWYD** y dylid cefnogi'r prosiectau a nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad i'w cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2013/14 a'u hargymell i'r Cyngor llawn.*

## 9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried. Rhoddodd y Cynghorydd Eryl Williams wybod am yr angen i aros am ganlyniad y CDLl cyn mabwysiadu'r Grŵp Llywio a chytunwyd y dylid gohirio'r eitem honno tan gyfarfod mis Mai. Cytunwyd hefyd y dylid ychwanegu'r Adroddiad Cyllid rheolaidd i gyfarfod mis Mehefin.

***PENDERFYNWYD** nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet*.

## GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD** dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem ganlynol yn cael ei thrafod, ar y sail ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y diffiniwyd ym*

*Mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

## 10 CYNLLUN CYFALAF

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad cyfrinachol sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet ar elfen 2012/13 y Cynllun Cyfalaf a phrosiectau mawr, a gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i gymeradwyo'r Cynllun Cyfalaf i'r dyfodol i'r Cyngor llawn. Mae crynodeb o'r cynllun cyfan a sut y bydd yn cael ei ariannu (Atodiad 1); manylion y gwir wariant a'r gwariant bwriedig gan bob Pennaeth Gwasanaeth (Atodiad 2), a chrynodeb o ragamcan cost ariannu'r Cynllun Corfforaethol (Atodiad 3) wedi'u hatodi i'r prif adroddiad.

Arweiniodd y Cynghorydd Thompson-Hill yr aelodau trwy'r adroddiad gan ymhelaethu ar y prosiectau mawr a'r cynnydd diweddaraf ac ymatebodd i gwestiynau fel a ganlyn –

- rhoddwyd gwybod am y graddfeydd amser i symud Ysgol Bro Dyfrdwy i safle sengl a chyllid perthnasol fel rhan o'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif ehangach
- cyfeiriwyd at y trafodaethau diweddaraf a chwblhau materion cyfreithiol yn ymwneud ag adleoli Llyfrgell Prestatyn a rhoddwyd sicrwydd na fydd unrhyw gyfleusterau llyfrgell yn cael eu colli am gyfnod sylweddol yn ystod y broses honno
- cadarnhawyd bod derbynebau cyfalaf fel arfer yn cael eu cyflawni ar lefel pris y farchnad neu uwch, a
- rhoddwyd gwybod bod tua £1.9m wedi'i argymell ar gyfer gwaith cynnal cyfalaf ysgolion.

Rhoddodd y Cynghorydd Eryl Williams wybod am y meini prawf er mwyn cael arian Ysgolion 21ain Ganrif ac ymatebodd i gwestiwn gan y Cynghorydd Arwel Roberts ynglŷn â chynnydd y datblygiad yn Ysgol Glan Clwyd. Mewn perthynas â gwaith cyfalaf esboniodd y broses o flaenoriaethu gwaith gwella ysgolion yn gyffredinol ac yn dilyn adolygiad ysgolion er mwyn gwella safonau.

***PENDERFYNWYD*** *nodi'r sefyllfa ddiweddaraf ar elfen 2012/13 y Cynllun Cyfalaf a'r wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau mawr a chymeradwyo'r Cynllun Cyfalaf i'r dyfodol i'r Cyngor Llawn.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.25 a.m.